MENTER IAITH
CASNEWYDD

Cynllun Corfforaethol

2018-2021

“Helpu pobl Casnewydd i fyw a gweithio yn y Gymraeg”

Hydref 2018

Rhagair

Saif dinas Casnewydd ar lan aber yr afon Wysg. Ers adrefnu awdurdodau lleol Cymru yn 1996, mae Casnewydd wedi bod yn fwrdeistref sirol ac ers 2002 cafodd Casnewydd ei gwneud yn ddinas.

“Dinas ar Dwf” a ddefnyddir gan Awdurdod lleol Casnewydd i ddisgrifio’r ddinas yn y cynllun Datblygu Lleol - Casnewydd yn Un, ac yn wir y mae’n ddinas fyrlymus ac unigryw sydd yn tyfu ac yn newid yn gyson nid yn unig o ran niferoedd y boblogaeth ond hefyd o ran hyder ac o ran cyfleoedd newydd sydd ar gael ar gyfer pobl y ddinas a thu hwnt.



Cefndir

Ganed Menter Iaith Casnewydd mewn cyfarfod cyhoeddus yn 2010 yn Ysgol Ifor Hael a oedd yn fwrlwm o syniadau a gobeithion am ddyfodol y Gymraeg yn y ddinas. Daeth dros hanner cant o bobl i'r digwyddiad hwnnw, gan gynnwys yr Aelod Seneddol Paul Flynn, a siaradodd yn angerddol am bwysigrwydd diwylliannol ac economeg y Gymraeg yn y ddinas. Ar ôl y dechreuad addawol hwnnw ffurfiwyd pwyllgor o wirfoddolwyr brwd, rhai a oedd wedi derbyn addysg/fagwraeth Gymraeg ac eraill a oedd wedi dysgu'r iaith fel oedolion. Gyda'i gilydd dechreusant adeiladu gweledigaeth o Gasnewydd yn ddinas gyfoes ddwyieithog hyderus.

Am ddwy flynedd gyntaf ei bodolaeth, gweithredodd y pwyllgor heb arian craidd drwy gynnal digwyddiadau lleol, bandiau, cwisiau, helfeydd wyau a ffeiriau Nadolig ac ati. Yn bwysicach byth, aethant ati i rwydweithio'n dawel i gychwyn ar y broses o wau ynghyd yr edafedd cymdeithasol a fydd dros amser yn creu cymdeithasau Cymraeg hyfyw yn y ddinas.

Yn 2012, derbyniodd y Fenter grant cychwynnol gan Lywodraeth Cymru ac apwyntiodd ei haelod o staff cyntaf, Elin Maher yn Swyddog Datblygu rhan amser. Nawr roedd yn bosibl i'r Fenter gynrychioli'r Gymraeg a'i siaradwyr mewn ffordd fwy strategol ac iddi fod yn rhan o broses cynllunio ar gyfer y dyfodol yn y ddinas. Yn sgil y datblygiadau hyn cafodd Fforwm Iaith Casnewydd ei sefydlu; corff pwysig sy'n cynrychioli mudiadau, sefydliadau a busnesau Cymraeg ledled y ddinas. Pan gychwynodd Menter Iaith Casnewydd roedd yna un ysgol gynradd Gymraeg (Ysgol Gymraeg Casnewydd) wedi sefydlu'n llawn ac ysgolion cynradd Ifor Hael a Bro Teyrnon wedi agor ei drysau ers cwta 4 ac 1 blwyddyn. Bellach mae'r tair ysgol ar ei llawn dwf ac agorwyd Ysgol Gyfun Gwent Is Coed yn 2016.

Mae'r Fenter, yn ymrwymedig i'w rôl fel hwylusydd er mwyn datblygu partneriaethau, prosiectau a digwyddiadau sy'n cefnogi a chryfhau'r Gymraeg mewn cymunedau lleol. Mae ein cyfarfodydd blynyddol yn gyfle da i enghreifftio'r gwaith hynny. Ynghyd â'n partneriaid a'r gymuned ehangach, mae'n gyfle gwych hefyd i ddathlu'r Gymraeg a'i chynnydd yn y ddinas.

Yn 2014, yn sgil Adolygiad y Mentrau Iaith a gafodd ei gomisiynu gan Lywodraeth Cymru, dyfarnwyd grant mwy sylweddol i Fenter Casnewydd. Ers hynny mae hi wedi bod yn bosibl i ni gyflogi dau aelod o staff, Prif Swyddog a Swyddog Datblygu cymunedol. Mae hynny wedi ein galluogi i sicrhau fod y cynllunio strategol yn digwydd law yn llaw â gwaith caib a rhaw adeiladu cymunedol - y 'pethau bychain' sydd yn y pen draw yn rhoi sail gadarn i'r Gymraeg fel iaith byw ac iaith fyw yn ein cymunedau. Daeth y Fenter yn

gwmni cyfyngedig dan warant ym Mai 2014 sy'n rhoi mwy o ryddid iddi weithredu fel busnes a mwy o gefnogaeth i gyfarwyddwyr y Fenter.

Erbyn heddiw, mae'r ddinas yn parhau i ddatblygu yn gyflym gyda stadau tai newydd yn cael eu datblygu ar draws y ddinas a thyfiant ym mhoblogaeth. Yn Hydref 2018 cyhoeddwyd y byddai ysgol gynradd Gymraeg newydd (y pedwerydd) yn cael ei hagor yn y ddinas yn Medi 2020. Rhwng 2014 a 2019 yn unig mae disgwyliad i boblogaeth y ddinas i dyfu gan bron i 3000 o bobl. Yn 2015/16 gwerthwyd 900 o dai newydd yn y ddinas, ac yn 2017 Casnewydd oedd yr ardal a welodd y nifer mwyaf o dai newydd yn cael eu hadeiladu ar draws Cymru gyfan. Gyda thollau Pont Hafren yn dod i ben ddiwedd 2018 mae disgwyliad bydd poblogaeth Casnewydd yn tyfu eto, gyda phobl o Orllewin Lloegr yn chwilio am gartrefi am bris rhatach. Yn anochel bydd hyn yn cael effaith ar y Gymraeg yng Nghasnewydd ac mae presenoldeb amlwg y Gymraeg trwy waith y Fenter yn holl bwysig i ffyniant yr iaith drwy sicrhau ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r iaith fel iaith byw sy'n perthyn ac yn berthnasol i holl drigolion y ddinas a'r sir. Mae hon yn adeg gyffrous, llawn newid, a gwaith y Fenter a'i phartneriaid fydd sicrhau fod y Gymraeg a lle amlwg yn ei chanol hi.

Casnewydd - cyfle i'r Gymraeg flodeuo.

Rydym yn ymwybodol bod y Gymraeg yn wynebu bygythiadau, dangosodd ffigurau cyfrifiad 2011 hynny, ac rydym yn awyddus i chwarae ein rhan wrth sicrhau bod pob un yn mwynhau defnyddio'r Gymraeg ac yn ei defnyddio'n bwrpasol a hyderus. Mae Menter Iaith Casnewydd yn fudiad sydd yn awyddus i ddatblygu a chynnig profiadau cyffrous a Chymraeg mewn awyrgylch hwyliog, beth bynnag fo'u cefndir.

Mae gan Lywodraeth Cymru uchelgais i gael Miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Ardal â chanran uchel o'r boblogaeth (ac yn tyfu) yw Casnewydd. I wireddu uchelgais y Llywodraeth mae angen i ardal Casnewydd bod yn flaenllaw wrth ddatblygu siaradwyr Cymraeg newydd a chefnogi siaradwyr Cymraeg i fedru defnyddio'r iaith yn ei bywydau pob dydd.

"Mae yna botensial am dwf yn y niferoedd o siaradwyr Cymraeg, yn enwedig yn yr ardaloedd hynny o Gymru sydd a dwysedd poblogaeth uchel ond canrannau is o siaradwyr Cymraeg. Ond mae angen sicrhau hefyd hyfywedd cymunedau Cymraeg fel lleoedd sy'n hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd." Cymraeg 2050 Miliwn o Siaradwyr, Llywodraeth Cymru 2017

“Y brif neges yn y ddogfen hon yw bod angen i ni gyrraedd sefyllfa lle mae’r Gymraeg yn elfen annatod o bob agwedd ar fywyd bob dydd.” Cymraeg 2050 Miliwn o Siaradwyr, Llywodraeth Cymru 2017

Yn ei Strategaeth **Cymraeg 2050 Miliwn o Siaradwyr** mae Llywodraeth Cymru yn amlygu
“tair thema strategol ar gyfer gwireddu’r weledigaeth hon.

1. Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg

2. Cynyddu’r defnydd o’r Gymraeg

3. Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun

Er mwyn llwyddo i wireddu’r weledigaeth bydd angen gweithredu o dan y tair thema, a deall y gydberthynas rhyngddynt.”



Mae rhaglen waith Menter Iaith Casnewydd yn ystyried yr holl themau hyn ond yn bennaf Thema 2, gan sicrhau gweithgarwch sy'n diwallu'r amcanion a nodir yn y ddogfen.

Mae Strategaeth Iaith 5 Mlynedd Cynor Dinas Casnewydd (2017-2022) yn cydnabod yr angen i'r strategaeth "...gynyddu cyfleoedd pawb i ddefnyddio'r Gymraeg." ynghyd â chynyddu'r nifer o blant sy'n derbyn addysg Gymraeg a "...chefnogi dysgwyr Cymraeg...". Mae ganddynt dair thema i'r strategaeth sef:

- Cynyddu nifer o siaradwyr Cymraeg
- Polisi'r Cyngor a Chynllunio'r Gweithlu
- Hyrwyddo'r Gymraeg ym mhob rhan o fywyd

Mae'r strategaeth eisoes wedi cyflawni'r nod o lanw dosbarthiadau Derbyn y tair ysgol gynradd ac mae'r niferoedd yn y tair ysgol yn sylweddol uwch na'r amcanestyniadau yn y ddogfen, felly calonogol yw'r newydd diweddar am agor pedwaredd ysgol gynradd Gymraeg yn 2020. Mae'r newyddion bendigedig yma am dyfiant niferoedd plant mewn addysg Gymraeg yn uwcholeuo pwysigrwydd gwaith y Fenter i ddarparu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. O'n gwaith dyddiol mae'r Fenter yn gweld yr angen i benodi Swyddog Teuluoedd, Plant a Phobl ifanc er mwyn sicrhau defnydd yr iaith tu allan i'r dosbarth ac i gefnogi rhieni a phwysleisio'r angen i ddefnyddio'r iaith i fagu rhuglder a hyder a fydd yn parhau i'r dyfodol er mwyn cyrraedd nod y Filiwn o Siaradwyr. Mae Ysgol Gymraeg Casnewydd yn dathlu 30 oed eleni ac rydym wedi gweld disgyblion cyntaf yr ysgol fel rhieni yn ein hysgolion, ond mae nifer helaeth ohonynt heb drosglwyddo'r iaith yn y cartref ac mae hyn yn pwysleisio'r angen am Swyddog Teuluoedd, Plant a Phobl Ifanc. Mae Strategaeth y Cyngor bron yn hollol ddibynnol ar fudiadau eraill i ddarparu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg er nad ydynt yn cyfrannu yn ariannol at hyn. Mae Menter Iaith Casnewydd yn cydweithio yn agos gyda'r Cyngor yn arbennig wrth gynllunio a gweithredu cynllun hybu Addysg Gymraeg yn y ddinas.

Nod

Nod Menter Iaith Casnewydd yw cynyddu defnydd y Gymraeg gan blant ac oedolion Casnewydd a'i gwneud yn iaith sy'n rhan o wead naturiol y ddinas a'r sir gan alluogi pobl yr ardal i fyw a gweithio yn y Gymraeg.

Amcanion

Er mwyn dod â'r Gymraeg yn fyw i drigolion Casnewydd byddwn yn

- Darparu gwasanaethau
- Cynnal digwyddiadau
- Cyd-gynllunio'n strategol
- Darparu a datblygu cyfleoedd i gynyddu'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg
- Creu hinsawdd ffafriol i'r Gymraeg yn lleol

Er mwyn cyflawni ei amcanion, mae Menter Iaith Casnewydd yn cyflogi 2 aelod o staff llawn amser sef Prif Swyddog a Swyddog Datblygu Cymunedol. Byddwn yn cyflogi hefyd staff rhan amser i weithio yn ein clybiau gwyliau a chlybiau ar ôl ysgol sydd wedi eu lleoli mewn dwy Ysgol Gymraeg leol yn y ddinas ar hyn o bryd ac yn asesu y gallu i ail agor clwb gofal ar ol ysgol i drydedd ysgol.

Mae ein gwirfoddolwyr hefyd yn rhan hanfodol o gyflawni ein hamcanion. Byddwn yn sicrhau ein bod yn eu cefnogi hwy ac yn gweithio i ddenu mwy o wirfoddolwyr i weithio gyda ni dros cyfnod y cynllun hwn.

Bydd ein prosect dros gyfnod y cynllun hwn yn mynd i'r afael â'r anghenion sydd wedi eu hadnabod trwy'r amrywiol ffynhonellau data sydd ar gael ar ein cyfer ac o'r holiaduron a'r sesiynau sydd wedi eu cynnal gyda rhanddeiliad a phartneriaid y Fenter.

Cynllun Corfforaethol Menter Iaith Casnewydd 2018-2021



Bydd gweithgarwch ein prosiect yn addas i'r 3 maes ffocws:

1. Fel y gallwn leihau'r bwlch yng ngwybodaeth a dealltwriaeth trigolion a gweithwyr Casnewydd am y Gymraeg
2. Fel y gallwn ddarparu gwybodaeth am ein gweithgarwch ni ac am weithgarwch eraill sydd yn hybu'r Gymraeg o fewn ein cymunedau ac ymhellach

3. Fel y gallwn ddarparu gwasanaethau a gweithgarwch i gynorthwyo mwy o bobl i wneud defnydd o'r Gymraeg yn amlach o ddydd i ddydd yng Nghasnewydd a thu hwnt.

Gwybod a deall
Byddwn yn darparu gweithgareddau ymwybyddiaeth a gwybodaeth am y Gymraeg mewn digwyddiadau ar draws y ddinas. Byddwn yn rhannu wybodaeth am adnoddau ac yn cyfeirio aelodau'r gymuned tuag at wasanaethau a ddarpeir gan barteriaid eraill.

Hyrwyddo
Byddwn yn rhannu gwybodaeth am ein gweithgareddau ni ac am weithgareddau mudiadau ac asiantaethau eraill yn y ddinas a thu hwnt am werth y Gymraeg ac am weithgareddau Cymraeg drwy ystod o ddulliau marchnata yn cynnwys y cyfryngau cymdeithasol a'r we.

Defnyddio
Byddwn yn cynnal gwasanaethau a digwyddiadau er mwyn bod mwy o bobl yn medru defnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol. Byddwn yn canolbwyntio ar ddenu cynulleidfaoedd newydd i weithgareddau a gwasanaethau yn y Gymraeg

Casnewydd - Dinas ar Dwf

Ystadegau'r Cyfrifiad – y lleol a'r cenedlaethol

Yn ôl cyfrifiad 2011, poblogaeth Casnewydd yw 145,736 a hi yw trydedd ddinas Cymru gyda phoblogaeth drefol o 306,844. Mae'r ddinas yn ffurfio rhan o ardal fetropolitan Caerdydd-Casnewydd gyda phoblogaeth o 1,097,000.

Dengys canlyniadau Cyfrifiad 2011 bod 13,002 o bobl Casnewydd sy'n gallu siarad Cymraeg, ffigwr sy'n cyfateb i 9.3% o boblogaeth y ddinas. Cyfanswm y nifer o bobl a oedd yn gallu siarad Cymraeg yn 2001 oedd 13,135 sef 10% o'r boblogaeth.

Dros y ddegawd fe welwyd gostyngiad bach o 133 mewn nifer o siaradwyr sef 0.7% o ran canran. Dylid hefyd ystyried y ffaith bod y nifer o siaradwyr di-gymraeg wedi cynyddu o 118,685 i 126,847 yn bennaf oherwydd mewnfudiad i'r ardal o wledydd tu allan i'r Deyrnas Gyfunol.

Yn ôl y ddogfen ‘Amcanestyniadau Poblogaeth Awdurdodau Lleol Cymru’ (Llywodraeth Cymru, Medi 2016) mi fydd poblogaeth Casnewydd wedi tyfu i o 145,736 yn 2011 i 149,243 yn 2019. Nid yw’r ddogfen hon wedi ystyried effeithiau diddymu pris croesi Pont Hafren ar ddiwedd 2018, ac mae Casnewydd wedi gweld codiad ym mhrisiau tai y ddinas ers cyhoeddi hyn oherwydd bod mwy o alw am gartrefi yn y ddinas yn barod.

Yn ôl yr ‘Amcangyfrifon Arolwg Blynyddol y Boblogaeth’ mae 21.7% (31,100) o bobl 3 oed a throsodd yn dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg yng Nghasnewydd. Mae anodd i gymharu'r data yma gyda Chyfrifiad 2011 oherwydd y dull casglu data, y cwestiwn a ofynnir a’r nifer yn y sampl, ond yn sicr mi allwn gymryd bod twf addysg Gymraeg yn y ddinas a newid agweddau pobl ac ewyllys da tuag at y Gymraeg wedi cyfrannu at y data cadarnhaol hwn. Gallwn serch hynny gymharu'r canlyniadau gyda’r un arolwg yn Medi 2011 a ddangosodd bod 20.9% (29,100) o bobl 3 oed a throsodd yn dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg yng Nghasnewydd. Dengys hyn bod twf bach yng nghanran y nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghasnewydd a bod y gwaith sy’n digwydd ganddom a phartneriaid eraill yn cael effaith ond bod angen dwysau'r gwaith yma er mwyn cael gwir effaith yn yr ardal yn erbyn yr heriau ac i’r ardal boblog hwn i gyfrannu yn fwy sylweddol at y nod o Filiwn o siaradwyr.

Mae demograffeg Casnewydd yn parhau i newid yn gyflym iawn. Os yw’r iaith am ennill tir, yna'r her yw codi ymwybyddiaeth o’r Gymraeg ymhlith y mwyafrif o Gymry di-gymraeg yn ogystal â’r newydd ddyfodiaid sydd heb dderbyn rhyw lawer o wybodaeth am fodolaeth yr iaith Gymraeg.

Cyfathrebu

Canfyddir fod gweddill Cymru yn gwybod mwy am Fenter Iaith Casnewydd na phobl Casnewydd ei hun. Bwriad Cynllun Marchnata Menter Iaith Casnewydd yw ehangu ein cynulleidfa bresennol leol ac i ganfod ‘Cymry coll’ Casnewydd er mwyn cynyddu’r defnydd o Gymraeg yn y gymuned. Yr ydym wedi llunio strategaeth farchnata sy’n cynnwys amrywiol ddulliau o gyfathrebu a gwerthuso er mwyn mesur effaith marchnata ein gweithgarwch. Mae’n gynllun byw a hyblyg fydd yn newid yn ôl ein gallu a’n hadnoddau.

Amcanion y 3 mlynedd nesaf yw:

- Codi ymwybyddiaeth leol o waith y Fenter– agor drysau i gynulleidfa newydd
- Cryfhau cysylltiadau â'r cyhoedd
- Dod o hyd i'r 'Cymry coll' – Targedu Cymry Cymraeg di-hyder
- Dylanwadu ar agweddau tuag at y Gymraeg – Ceisio chwalu ystradebau negyddol am yr iaith
- Cydweithio a chynorthwyo ein partneriaid wrth greu ymgyrchoedd strwythuredig i hyrwyddo negesau penodol yngylch y Gymraeg ymhlith ein grwpiau targed
- Cynyddu presenoldeb y Fenter ar y cyfryngau cymdeithasol a'r we.
- Dod o hyd i ffyrdd newydd a fforddiadwy o farchnata'n effeithiol a chynyddu ein cymhwysedd yn y maes

Ein grwpiau targed yw:

Pobl newydd i'r ddinas ac i'r Gymraeg	Plant a Phobl ifanc	Pobl hollol ddi-Gymraeg sydd heb ymwybyddiaeth o'r iaith a'i chyfleoedd
Dysgwyr	Oedolion a siaradwyr hŷn sydd wedi colli cyswllt gyda'r Gymraeg	Rhieni / Teuluoedd ifanc

Yn y strategaeth Cymraeg 2050:Miliwn o Siaradwyr mae Llywodraeth Cymru yn nodi 3 Thema i'w datblygu:

Maent hefyd wedi creu Cymraeg 2050: Rhaglen Waith 2017-2021 wrth weithio tuag at nodau y Themau ac felly dyma ffocws y gwaith nawr wrth weithio tuag at uchelgais Miliwn o siaradwyr erbyn 2050.

Nod Llywodraeth Cymru	Camau	Trosolwg o'n gwaith
Thema 1: **Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg**	• Trosglwyddo'r iaith o fewn y teulu • Y blynyddoedd cynnar • Addysg statudol • Addysg ôl-orfodol • Y gweithlu addysg, adnoddau a chymwysterau	● Byddwn yn hyrwyddo a chyfeirio oedolion tuag at wersi Cymraeg a dulliau amrywiol o ddysgu Cymraeg ● Byddwn yn hyrwyddo a chyfeirio teuloedd at weithgareddau a gwasanaethau Cymraeg i Blant a Mudiad Meithrin ● Byddwn yn hyrwyddo a chyfeirio teuluoedd at Addysg Statudol Gymraeg gan rannu gwybodaeth lleol a gwybodaeth am fanteision dwy-ieithrwydd a medru siarad Cymraeg ● Byddwn yn hyrwyddo a chyfeirio unigolion at Addysg ôl-orfodol a

		chymwysterau trwy gyfrwng y Gymraeg a'r manteision o astudio trwy gyfrwng y Gymraeg
Thema 2: **Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg**	• Y gweithle • Gwasanaethau • Defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg	● Byddwn yn cynnal digwyddiadau a phrosiectau i ehangu'r cyfleoedd i blant a phobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg ● Byddwn yn chwilio am gyllud i gynnal digwyddiadau a phrosiectau newydd sy'n galluogi pobl i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol ● Gan gydweithio gyda phartneriaid cymunedol, byddwn yn cynnal/hyrwyddo ystod o weithgareddau a digwyddiadau/gweithgareddau ● Byddwn yn cyd-weithio gyda ac yn annog mudiadau lleol i gynnig gwasanaeth Cymraeg ac yn cefnogi hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg ● Byddwn yn denu cynulleidfaoedd newydd i weithgareddau Cymraeg ● Byddwn yn parhau i ddatblygu ein rhith bresenoldeb ar y we ac ar y cyfryngau cymdeithasol er mwyn rhannu gwybodaeth am wasanaethau/digwyddiadau/prosiectau/gweithgareddau Cymraeg

		sy'n addas i blant/pobl ifanc/oedolion/teuluoedd/dysgwyr
Thema 3: **Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun**	• Cymuned a'r economi • Diwylliant a'r cyfryngau • Cymru a'r byd ehangach • Technoleg ddigidol • Seilwaith ieithyddol • Cynllunio ieithyddo • Gwerthuso ac ymchwil	● Byddwn yn cyfeirio gweithwyr at wersi Cymraeg yn y gweithle ● Byddwn yn cydweithio gyda Chyngor Dinas Casnewydd, a mudiadau a grwpiau lleol i ddylanwadu a chydweithio i gael ystod ehangach o wasanaethau ar gael yn y Gymraeg yn y ddinas ● Cynnal sesiynau Ymwybyddiaeth Iaith yn ol y galw ● Trwy weinyddu a rheoli Swyddog Cymraeg Byd Busnes yn lleol annog darpariaeth gwasanaethau Cymraeg ar gael i'r cyhoedd ac hyrwyddo ac annog defnydd o'r gwasanaethau hynny.

Dadansoddiad SWOT: Y Gymraeg yng Nghasnewydd

Cryfderau	Gwendidau
Twf Addysg Gymraeg Cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn raddol gynyddu yn y Ddinas Tair Ysgol Gymraeg Gynradd lwyddiannus a pedwaredd i agor yn 2020 Cyfleoedd yn cynyddu i bobl ifanc a phlant i ddefnyddio'r Gymraeg o fewn clybiau allgyrsiol. Fforwm Iaith wedi sefydlu ac yn weithredol	Canran o siaradwyr i'r boblogaeth yn isel Y Gymraeg yn isel ar restr blaenoriathau'r Awdurdod Lleol yn gorfforaethol ac yn gymunedol Y Gymraeg ddim yn ddigon gweledol a chlywadwy Diffyg staff sy'n medru'r Gymraeg ag a chymhwysterau perthnasol i weithio gyda phlant cyn-oed ysgol Nifer fach o raglenni trechu tlodi Llywodraeth Cymru ddim yn cynllunio ar gyfer y Gymraeg yn lleol. Diffyg darparaieth Addysg Bellach yn y Gymraeg. Diffyg datganiad polisi Angen Pumed Ysgol Gynradd Gymraeg er mwyn parhau tyfiant Addysg Gymraeg y ddinas
Cyfleoedd	**Bygythiadau**
Dinas ar Dwf – datblygiad economaidd Niferoedd yn yr ysgolion. Rhieni di-Gymraeg yn gynyddol dewis Addysg Gymraeg. Ymchwil rhyngwladol yn dylanwadu ar ddewis rhieni o addysg	Toriadau cyllid i Awdurdod Lleol. Y Gymraeg ddim wedi ei mewnblannu yn systemau Llywdoraeth Leol a grwpiau cymunedol eraill yn yr ardal. Agweddau negyddol tuag at yr iaith

i'w plant. Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg i Blant a'r Urdd yn fwy gweithredol yn y ddinas Cynllun hybu Addysg Gymraeg clir ar waith gan y CSAG	Pobl sydd â'r gallu i siarad Cymraeg yn dewis peidio gwneud. Mudiadau trydydd sector lleol ddim yn ystyried y Gymraeg yn rhan o'u gwaith lleol neu angen cefnogaeth sylweddol i wneud Mewnfudo economaidd yn dilyn diddymu tollau Pont Hafren

Dadansoddiad SWOT: Menter Iaith Casnewydd

Cryfderau	Gwendidau
Criw o wirfoddolwyr cefnogol Brywdfrydedd lleol Yn amlwg o fewn rhwydweithiau lleol Adnabod a deall anghenion ein hardal Cynrychioli'r Gymraeg yn strategol ar nifer o bwyllgorau yn y ddinas. Staff brwd, gweithgar ac angerddol. Cydweithio effeithiol gyda pharteriaid lleol eraill sy'n gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg	Pwll cyfyngedig o wirfoddolwyr Dim trawsdoriad cytbwys o'r gymuned Diffyg ystod o staff i wnued gwahaniaeth amlwg o fewn meysydd penodol. Yr un bobol yn gwneud gormod Diffyg arian i fedru datblygu gwasanaethau i ymateb i'r newid mewn galw ac anghenion
Cyfleoedd	**Bygythiadau**
Cydweithio gyda pharteriaid lleol eraill nad ydynt yn gweithio yn bennaf trwy'r Gymraeg Cyfle i ddylanwadu ar boblogaeth o 150,000 a mwy	Cyllid Craidd yn fregus Ffrydiau incwm yn diflannu Adnoddau cyfyng

Beth fyddwn yn ei wneud dros y 3 mlynedd nesaf?

Erbyn 2021

...byddwn yn elusen/SCE cryf sydd yn cefnogi ein gwirfoddolwyr a grwpiau lleol gan adnabod

anghenion ein cymunedau ynghylch y Gymraeg

...byddwn gydag ein partneriaid lleol wedi ehangu'r cyfleoedd i blant, pobl ifanc, oedolion, teuluoedd a dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg yn ein cymuned.

Bydd y pontio rhwng y dysgwyr a'r siaradwyr rhugl yn gryfder i ni

...byddwn yn bartner cryf, amlwg sy'n meddu hygrededd a hyder mudiadau a phartneriaid eraill gan gynnwys yr awdurdod lleol.

...byddwn yn cydweithio ar gynlluniau gyda'r Gymraeg yn lleol.

...byddwn yn gyllidol gryfach gydag amryw o ffrydiau arian i ddiwallu ein gwaith.

...byddwn yn fwrdd rheoli Menter gref a phrofiadol ac yn gweithio i safonau marc safon PQASSO.

Amcanion

Amcan	Targed	Canlyniad
Datblygu Menter Iaith Casnewydd i fod yn elusen gref sy'n gweithio'n effeithiol	1. Gweithio tuag at a derbyn marc ansawdd PQASSO. 2. Ehangu ffynonellau arian gan gynnwys ceisiadau grant 3. Cofrestri fel Elusen neu Sefydliad Corfforedig Elusennol (CIO-Charitable Incorporated Organisation).	1. Sicrhad bod gweithdrefnau Llywodraethiant perthnasol, angenrheidiol ac effeithiol mewn lle ac yn cael ei gweithredu 2. Sicrwydd ariannol er mwyn darparu adnoddau digonol i weithredu fel Menter ac i ddatblygu gwasanaethau. 3. Galluogi y Fenter i wneud ceisiadau grant/ariannol ehangach.
Trefnu gweithgareddau a datblygu prosiectau amrywiol i alluogi plant, phobl ifanc, oedolion, teuluoedd a dysgwyr i ddefnyddio'r iaith tu hwnt i'r dosbarth neu aelwyd.	4. Datblygu ac ehangu gweithgareddau i blant oed ysgol, pobl ifanc a theuluoedd gan ymateb i anghenion a diddordebau. 5. Parhau i gynnal gweithgareddau i oedolion (rhugl a dysgwyr) ond monitro ac addasu yn barhaol i ymateb i anghenion. Datblygu prosiectau newydd. 6. Cydweithio a phartneriaid lleol a rhanbarthol er mwyn cyfrannu at, cefnogi a hyrwyddo strategaethau/gweithgareddau lleol.	4. Normaleiddio defnydd yr iaith ac adeiladu hyder siaradwyr a dangos y galw am wasanaethau Cymraeg. 5. Normaleiddio defnydd yr iaith ac adeiladu hyder siaradwyr a dangos y galw am wasanaethau Cymraeg. Pontio rhwng siaradwyr rhugl a dysgwyr. 6. Ehangu cyfleoedd i bobl o bob oed ddefnyddio'r Gymraeg fel rhan o fywyd pob dydd. Codi proffil y Gymraeg yn y gymuned leol.
Cynyddu ymwybyddiaeth a gwybodaeth pobl a mudiadau Casnewydd am y Gymraeg ac am ddarpariaeth Menter Iaith Casnewydd	7. Marchnata a sicrhau bod rhieni plant ysgolion Cymraeg y ddinas yn ymwybodol o wasanaethau, nod a rôl y Fenter. 8. Mudiadau a phoblogaeth Casnewydd yn fwy ymwybodol o'r Gymraeg yn y ddinas Lle phosib cyd-weithio gyda mudiadau di-	7. Normaleiddio defnydd yr iaith ac adeiladu hyder siaradwyr trwy ddefnyddio'r Gymraeg tu allan i'r ystafell ddosbarth. 8. Manteision a chyfleoedd all y Gymraeg gynnig i'r mudiadau a chymuned yn glir a magu agweddau cadarnhaol at y

	Gymraeg yng Nghasnewydd i ehangu defnydd ac ymwybyddiaeth.	Gymraeg. Mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ar gael. Mwy yn dysgu Cymraeg neu yn dewis addysg Gymraeg i'w plant. Cymraeg yn fwy gweladwy/clywadwy.

Pwy yw cynulleidfa Menter Iaith Casnewydd?

Mae pob un person sydd yn byw, gweithio ac ymweld â Chasnewydd yn rhan o'n cynulleidfa.

Sut fyddwn yn eu cynorthwyo i wneud mwy o ddefnydd o'r Gymraeg felly?

Gyda chanran uchel o rieni ysgolion Cymraeg ein dinas yn ddi-Gymraeg a dwysedd siaradwyr Cymraeg y boblogaeth mor isel, mae her ychwanegol yng Nghasnewydd i sichrhau'r amgylchedd orau ar gyfer medru defnyddio'r Gymraeg yn hwylus. Cydnabyddwn hyn. Y mae'r angen felly i sicrhau fod partneriaid eraill o'n cwmpas yn gweithredu ac yn darparu i greu'r awyrgylch orau i bawb fedru gallu defnyddio'r Gymraeg, hyd yn oed yn fwy pwysig.
Yr ydym wedi adnabod y grwpiau hyn ac wedi nodi isod sut y bwriadwn ymgysylltu a chynorthwyo y grwpiau penodol hyn.

Plant	Pobl Ifanc	Oedolion		
		Rhieni (Teuluoedd)	Gweithwyr	Dysgwyr (Teuluoedd)
Darparu gweithgareddau cymdeithasol, a gwybodaeth am weithgareddau gan bartneriaid eraill, y tu allan i'r ystafell ddosbarth	Darparu gweithgareddau cymdeithasol, a gwybodaeth am weithgareddau gan bartneriaid eraill, y tu allan i'r ystafell ddosbarth	Darparu gwybodaeth a gweithgareddau cymdeithasol ar eu cyfer (a'r teulu) y tu allan i'r ystafell ddosbarth	Darparu gwybodaeth am gydestun y Gymraeg o fewn meysydd gwaith penodol.	Cyfeirio dysgwyr at wersi Cymraeg i oedolion.
Cydweithio gyda phartneriaid i sicrhau ystod ehangach o weithgareddau a gwasanaethau	Cydweithio gyda phartneriaid i sicrhau ystod ehangach o weithgareddau a gwasanaethau	Cyfeirio rhieni at adnoddau i'w defnyddio yn y cartref	Annog y gweithle i gadw cofnod o sgiliau Cymraeg eu gweithlu gan eu cynghori ar sut i'w cefnogi a'u datblygu	Trefnu digwyddiadau ar y cyd i bontio rhwng dysgwyr a siaradwyr rhugl.
Ymgysylltu â phlant i gasglu gwybodaeth am y math o	Ymgysylltu â phobl ifanc i gasglu gwybodaeth am y	Annog partneriaid i gynyddu darpariaeth gwasanaethau	Cyfeirio'r gweithle at adnoddau i'w defnyddio yn	Cyfeirio dysgwyr at adnoddau i'w defnyddio i

weithgareddau cymdeithasol Cymraeg byddent eisiau mynychu	math o weithgareddau cymdeithasol Cymraeg byddent eisiau mynychu a'i cefnogi i drefu gweithgareddau/digwyddiadau eu hunain	yn y Gymraeg i rieni	y gweithle	gefnogi eu dysgu

Gyda phwy y gweithiwn?

Mae gweithio mewn parteriaeth yn hynod bwysig i sichrhau y gwerth gorau am arian ac hefyd y ddarpariaeth orau posibl ar gyfer holl drigolion y ddinas. Mae Menter Iaith Casnewydd yn arwain y Fforwm Iaith Sirol sydd yn cyrychioli nifer o gyrff a busnesau lleol lle y defnyddir y Gymraeg a lle y mae'r Gymreg yn rhan o'u darpariaeth. Mae'r Fforwm Sirol yn cwrdd o leiaf bedair gwaith y flwyddyn ac mae croeso mawr i unrywun fynychu'r Fforwm i gyfrannu neu i wrando ar y cynllunio. Isod ceir rhestr o'r rhai sydd yn cael eu gwahodd i gyrychioli eu mudiad ar y Fforwm Iaith. Mae Cylch Gorchwyl cyfredol y Fforwm ar gael i'w weld gyda gwybodaeth am ein gwaith presennol.

Cyngor Dinas Casnewydd	**Ysgol Gymraeg Bro Teyrnon**	**Canolfan Gymraeg i Oedolion Gwent**
Gwasanaeth Cyflawni Addysg i Dde-Ddwyrain Cymru	**Ysgol Gymraeg Casnewydd**	**Prifysgol De Cymru**
Uned Gymraeg Llywodraeth Cymru	**Ysgol Gymraeg Ifor Hael**	**Merched y Wawr**
Urdd Gobaith Cymru	**Ysgol Gyfun Gwynllyw**	**Cymdeithas Cymry Casnewydd**
Mudiad Meithrin	**Coleg Gwent**	**Eglwys Annibynol Mynydd Seion a Eglwys Presbeteraidd Ebeneser**
Ysgol Gyfun Gwent Is Coed	**Cymraeg i Blant**	**Busnesau Lleol**
Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan	**Coleg Cymraeg Cenedlaethol**	**Ysgol Gynradd Gymraeg Newydd i agor 2020**

Gweithio gyda'n cymuned

Rhan bwysig o waith Menter Iaith Casnewydd yw cymorth amhrisiadwy ein gwirfoddolwyr. Heb ein gwirfoddolwyr ni fyddai Menter Iaith Casnewydd yn bodoli o gwbl. Mae Menter Iaith Casnewydd drwy ein gwaith yn cynyddu cymhwysedd ein staff ac yn elwa o sgiliau ein gwirfoddolwyr ac yn eu cynorthwyo i wella eu sgiliau yn ogystal. Mae Menter Iaith Casnewydd yn cyfrannu'n uniongyrchol at allu rhieni i weithio neu hyfforddi drwy ddarparu clybiau ar ôl ysgol ac felly yn cyfrannu at yr economi leol. Rydym hefyd yn gyflogwr cyfrwng Cymraeg yn ninas Casnewydd - un o'r prin gyflogwyr yn y ddinas sydd â 100% o'r gweithlu yn siaradwyr Cymraeg rhugl. Gobeithiwn y byddwn yn gweld hyn yn newid dros y blynyddoedd nesaf.

Strwythur Staffio Menter Iaith Casnewydd



Sut fyddwn ni'n cyllido gwaith Menter Iaith Casnewydd?

Mae sicrhau dyfodol cynaladwy i Fenter Iaith Casnewydd yn hollbwysig.
Ein ffynhonnell pennaf o incwm ar hyn o bryd ywr grant craidd gan Lywodraeth Cymru. Rydym wedi derbyn y grant hwn ers 2011 gan gychwyn gyda £10,000 ac yn derbyn £60,000 ers 2014.

Nodwn isod sut y byddwn yn cyllido ein gwaith ar hyd cyfnod y cynllun corfforaethol hwn.

Incwm	**2018-2019**	**2019-2020**	**2020-2021**
Grant Craidd Llywodraeth Cymru	£60,000	£60,00.00	£60,000
Incwm Gweithgareddau (cynnwys clybiau gofal)	£23,000	£24,000	£24,000
Incwm Grantiau eraill	£5,000	£8,000	£12,000
Cyfanswm	£88,000	£92,000	£96,000